CONSULT

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
Centre for Trials Research
Canolfan Ymchwil Treialon

Mynd i'r afael â'r rhwystrau i waith ymchwil sy'n cynnwys oedolion ag amhariad ar eu gallu i roi caniatâd

Cefndir CONSULT

Mae caniatâd gwybodus yn egwyddor sylfaenol mewn gwaith ymchwil. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar bobl â chyflyrau neu anableddau sy'n effeithio ar eu gallu i gyfathrebu a/neu wneud penderfyniadau er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylent gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil. Efallai na fydd gan rai pobl y gallu i roi caniatâd drostynt eu hunain, hyd yn oed gyda chefnogaeth.

Yn aml, caiff pobl sydd ag amhariad ar eu gallu i gyfathrebu a/neu wneud penderfyniadau eu heithrio o waith ymchwil, gan gynnwys treialon clinigol, oherwydd pryderon ynghylch eu gallu i roi caniatâd, neu'r materion moesegol, cyfreithiol ac ymarferol sy'n codi os nad oes ganddynt y gallu i roi caniatâd.

Gall eithrio poblogaethau o ymchwil yn rheolaidd arwain at beidio â chynllunio gofal iechyd ar gyfer y bobl sydd angen cymorth fwyaf, gan arwain at ganlyniadau gwaeth. O ganlyniad, mae gwella cynhwysiant mewn ymchwil yn faes blaenoriaeth i gyllidwyr ymchwil, cyrff rheoleiddio a sefydliadau ymchwil.

Nod CONSULT

Nod CONSULT oedd cefnogi cynhwysiant moesegol oedolion ag amhariad ar eu gallu i roi caniatâd i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil drwy nodi rhwystrau i gynhwysiant a mynd i'r afael â nhw.

Roedd yn cynnwys cyfres o astudiaethau dulliau cymysg a datblygu a chyflwyno ymyriadau methodolegol i dargedu rhwystrau ar wahanol lefelau systemau.

Bydd y canfyddiadau'n helpu ymchwilwyr, cyllidwyr ymchwil, cyrff rheoleiddio a sefydliadau eraill i sicrhau bod ymchwil yn fwy cynhwysol o bobl sydd ag amhariad ar eu gallu i roi caniatâd.

Helpodd aelodau o'r cyhoedd i sicrhau bod y canfyddiadau'n berthnasol i bobl â chyflyrau neu anableddau a all effeithio ar eu gallu i gyfathrebu a/neu wneud penderfyniadau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Canfyddiadau ac allbynnau

Nododd CONSULT nifer o heriau sy'n rhwystro pobl ag amhariad ar eu gallu i roi caniatâd rhag cael eu cynnwys mewn gwaith ymchwil, a ffyrdd y gellid mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

Gwnaethom hefyd ddatblygu amrywiaeth o adnoddau ac offer i gefnogi ymchwilwyr, cyllidwyr, cyrff rheoleiddio, yn ogystal â phobl sy'n byw gyda chyflyrau neu anableddau a'u teuluoedd.

Gweler crynodeb a dolenni i ragor o wybodaeth yn y diagram ar dudalen 2.

Camau nesaf ar gyfer y gwaith ymchwil hwn

Rydym yn gweithio gydag ymchwilwyr, cyllidwyr ymchwil, cyrff rheoleiddio a sefydliadau ymchwil i sicrhau bod canfyddiadau CONSULT yn arwain at newidiadau mewn canllawiau ac arferion.

Yn dilyn ymlaen o CONSULT, bydd prosiect newydd (ACCORD) yn archwilio'r ansicrwydd moesegol a chyfreithiol sy'n ymwneud ag ymchwil sy'n cynnwys oedolion ag amhariad ar eu gallu i roi caniatâd ac yn datblygu ymyriadau sy'n seiliedig ar ymddygiad i wella cynhwysiant.

https://www.cardiff.ac.uk/centre-for-trials-research/research/studies-and-trials/view/accord

Rhagor o wybodaeth

Ewch i wefan CONSULT:
www.capacityconsentresearch.com

Manylion cyswllt:
Dr Victoria Shepherd
Canolfan Ymchwil Treialon
Prifysgol Caerdydd

E-bost: ShepherdVL1@caerdydd.ac.uk

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Ariannwyd CONSULT gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru